Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Cynllun Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Hawdd ei Ddarllen

Fy enw i yw Dafydd Llywelyn.

Pleidleisiodd y bobl sy'n byw yn Nyfed a Phowys drosta i i fod yn Gomisiynydd Heddlu a Throseddu ichi.

Fy ngwaith i yw edrych ar y gwaith mae'r heddlu'n ei wneud. Byddaf yn gwneud hyn tan fis Mai 2025.

Rwy'n gwneud yn siŵr fod y cyhoedd yn hapus â'r gwaith mae'r heddlu'n ei wneud. Rwy'n holi cwestiynau pan mae pethau'n mynd o'i le neu ddim yn gweithio.

Mae'r ddogfen hon yn dweud wrthych am y cynlluniau sydd gen i ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys. Dyma beth rwyf eisiau i'r heddlu wneud.

Gwefan: www.dyfedpowys-pcc.org.uk

E-bost: opcc@dyfed-powys.police.uk

@dpopcc

Post: Swyddfa Comisiynydd
yr Heddlu a Throseddu,
Blwch Post 99,
Llangynnwr,
Caerfyrddin,
SA31 2PF
Ffôn: 01267 226440

Beth ydw i'n ceisio gwneud?

Rydw i eisiau cadw pobl ardal Dyfed-Powys yn ddiogel. Rydw i hefyd eisiau i bobl deimlo'n hapus am y gwaith mae'r heddlu a'r llysoedd yn ei wneud.

Mae hyn yn golygu y byddaf yn ceisio:

- Helpu pobl i ymdrin â throsedd yn eu hardaloedd.
- Sicrhau bod unrhyw un sydd angen gwneud hynny'n medru siarad â'r heddlu.

- Cymryd gofal arbennig i helpu pobl sy'n agored i niwed.

- Sicrhau bod yr heddlu a'r llysoedd yn cydweithio'n dda.
- Sicrhau bod pawb yn gwybod beth mae'r heddlu'n ei wneud.

Mae'r cynllun hwn yn esbonio sut y byddaf yn gwneud y pethau hyn.

Y pethau pwysig rwyf eisiau eu gwneud

1. Helpu dioddefwyr trosedd

Rwyf am sicrhau bod yr heddlu'n helpu pob dioddefydd trosedd yn y ffordd sydd orau ar gyfer yr unigolyn.

Pam ydw i'n gwneud hyn?

Dywedoch wrthyf ei bod hi'n bwysig fod yr heddlu'n gofalu am bob dioddefydd trosedd yn y ffordd sydd orau iddo.

Mae'r Llywodraeth wedi dweud wrthyf beth maen nhw'n disgwyl imi wneud dros ddioddefwyr a thystion.

Mae dyletswydd gyfreithiol arnaf i sicrhau bod plant a phobl ifainc yn derbyn gofal.

Beth fydda i'n ei wneud?

Byddaf yn sicrhau ein bod ni'n gwella'n gwasanaethau i helpu pob dioddefydd.

Byddaf yn sicrhau bod pob dioddefydd yn cael ei glywed.

Byddaf yn sicrhau bod pob tyst yn medru rhoi tystiolaeth yn ddiogel.

Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni wedi cyflawni'r pethau hyn?

- Pan fyddwn yn ei gwneud hi'n haws i bobl adrodd am droseddau.
- Pan fyddwn yn cadw cofnodion cywir o droseddau a dioddefwyr.

- Pan fyddwn yn helpu dioddefwyr i ddod dros trosedd yn y ffordd orau.
- Pan fydd dioddefwyr yn fodlon â'r ffordd mae eu hachos wedi'i drin.

2. Atal troseddau

Rwyf eisiau atal troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol rhag digwydd yn y lle cyntaf.

Pam ydw i'n gwneud hyn?

Mae gennyf ddyletswydd gyfreithiol i geisio atal trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Dywedoch wrthyf ei bod hi'n bwysig fod yr heddlu'n ceisio atal troseddwyr rhag troseddu eto.

Mae'r Llywodraeth wedi dweud wrthyf y dylai atal trosedd fod yn rhan bwysig o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan yr heddlu.

Beth fydda i'n ei wneud?

Byddaf yn sicrhau ein bod ni'n atal pobl rhag:

- Troseddu yn y lle cyntaf.
- Troseddu dro ar ôl tro.

Yr wyf eisiau helpu menywod, plant ifainc a defnyddwyr cyffuriau'n arbennig.

Byddaf yn gwrando arnoch pan fyddwch yn sôn am y troseddau rydych chi'n poeni amdanynt.

Byddaf yn gweithio i newid y ffordd y mae pobl yn meddwl am y defnydd o gyffuriau.

Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni wedi cyflawni'r pethau hyn?

- Pan fydd llai o droseddau'n digwydd, yn arbennig rhai sy'n ymwneud â menywod a merched.
- Pan fydd llai o droseddwyr yn aildroseddu.
- Pan fydd pawb yn teimlo'n fwy diogel ar y strydoedd ac yn eu cartrefi.

3. Helpu'r system gyfiawnder i weithio'n well

Yr wyf eisiau helpu'r heddlu, y llysoedd a'r carchardai i weithio'n well.

Pam ydw i'n gwneud hyn?

Mae dyletswydd gyfreithiol arnaf i sicrhau bod yr heddlu, y llysoedd a'r carchardai'n cydweithio'n dda.

Mae dyletswydd gyfreithiol arnaf i sicrhau bod pawb sy'n defnyddio'r heddlu'n cael ei drin yn deg.

Dywedoch wrthyf y dylai pawb allu cael mynediad i'r heddlu a'r system lys.

Credwn y bydd mwy o bobl angen mynediad i'r heddlu a'r llysoedd yn y dyfodol. Mae angen inni baratoi ar gyfer hyn.

Beth fydda i'n ei wneud?

Byddaf yn gweithio gyda'r Llywodraeth er mwyn sicrhau'n bod ni'n gwneud yr holl newidiadau yr ydym angen eu gwneud.

Byddaf yn gweithio er mwyn gwella casglu data fel ein bod ni'n medru gweld pan nad yw pobl yn cael eu trin yn deg.

Byddaf yn ceisio darparu mwy o gefnogaeth ar gyfer pobl ifainc.

Byddaf yn ceisio newid y gyfraith fel nad oes neb sy'n iau na 12 oed yn cael cofnod troseddol.

Byddaf yn ceisio sicrhau bod troseddwyr yn deall y niwed mae eu troseddau'n achosi.

Byddaf yn helpu cymunedau i ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol heb fynd drwy'r llysoedd.

Sut fyddwn ni'n gwybod ein bod ni wedi cyflawni'r pethau hyn?

- Pan mae troseddau'n cael eu hymchwilio'n gynt.
- Pan mae mwy o achosion llys yn gorffen yn llwyddiannus, yn arbennig y rhai sy'n ymwneud â menywod a merched.
- Pan mae mwy o droseddwyr yn cael gweld y boen mae eu troseddau'n achosi.
- Pan mae pawb yn medru gweld bod y system gyfiawnder yn gweithio.

Gwerthoedd

Er mwyn sicrhau fy mod i'n cyflawni'r pethau hyn, byddaf yn helpu'r heddlu a sefydliadau eraill i wneud pedwar peth:

1. Cydweithio

Mae'r Llywodraeth, cymunedau, busnesau a'r heddlu'n cydweithio. Byddaf yn helpu hyn i ddigwydd.



2. Bod yn atebol

Byddwn yn dweud wrthych am y cynnydd yr ydym yn ei wneud. Cewch weld beth mae'r heddlu'n ei wneud yn iawn, a beth sydd angen ei wella.

3. Bod yn gynaliadwy

Mae angen inni sicrhau bod digon o arian gyda ni i dalu am yr heddlu a'r hyn sydd angen arnynt. Mae angen inni ofalu am yr amgylchedd hefyd. Byddaf yn edrych ar ffyrdd newydd o wneud i hyn ddigwydd.

4. Gwrando ar bobl

Yr ydym eisiau'ch barn chi ynglŷn â sut i wella'n gwasanaeth heddlu. Byddaf yn sicrhau bod lleisiau pobl yn cael eu clywed.

Sut yr ydym yn gwario'ch arian?

Byddaf yn sicrhau bod yr heddlu'n gwario arian yn ddoeth.

Council Tax

Your Name
88 Your Street
Your Town
AN35 8TT

Council Tax Bill 2019-2020

Total Council Tax £1,206.79

Total Council Tax £305.59

Helpline
0800 222 33 44

O ble daw'r arian?

Bob blwyddyn, mae cynghorau'n rhoi rhywfaint o'r arian maen nhw'n codi drwy'r dreth gyngor i Heddlu Dyfed-Powys.

O Ebrill 2021 i Mawrth 2022, oddeutu £275 o bob tŷ oedd y swm hwn. Hwn oedd y swm isaf yng Nghymru. Pan rydyn ni'n rhoi'r holl arian hwn at ei gilydd, yr ydym yn derbyn ychydig dros £62 miliwn.

Mae'r Llywodraeth yn rhoi rhywfaint o arian inni hefyd. Mae hyn yn golygu bod Heddlu Dyfed-Powys wedi derbyn bron i £120 miliwn rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022.

Beth mae'r heddlu'n ei wneud â'r arian hwn?

Defnyddir yr arian a dderbyniwn i ariannu'r hyn y mae'n rhaid i'r heddlu ei wneud yn ardal Dyfed-Powys.

Mae'n cael ei wario ar y canlynol:

- Cyflog ar gyfer swyddogion a staff heddlu.
- Cerbydau, cyfrifiaduron ac adeiladau'r heddlu.
- Talu pobl sy'n medru'n helpu â'n gwaith.
- Cymorth ar gyfer cymunedau, elusennau a grwpiau eraill sy'n medru'n helpu i gyflawni'n nodau.

Yr wyf eisiau ichi gael gwerth am arian gan yr heddlu. Pan mae'n cael ei wario, byddaf yn sicrhau:

- Ei fod yn cael ei wario'n ddoeth.
- Ein bod ni'n ceisio helpu busnesau lleol a chreu swyddi.
- Ein bod ni'n ceisio helpu pobl sy'n agored i niwed.
- Ein bod ni'n ceisio gwarchod yr amgylchedd.

A fedrwch chi'n helpu i?

Mae gwirfoddolwyr yn bwysig o ran fy helpu i wneud fy ngwaith yn dda.

Mae 5 ffordd y medrwch fy helpu i: Gallech fod yn:

- **Ymwelydd Annibynnol â Dalfeydd** – maen nhw'n ymweld â phobl sy'n cael eu cadw yng nghelloedd yr heddlu, ac yn gwirio eu bod nhw'n cael eu trin yn dda.

- **Ymwelydd Lleyg Er Lles Anifeiliaid** - maen nhw'n gwirio bod cŵn yr heddlu'n derbyn gofal.

- **Aelod o'r Panel Sicrhau Ansawdd** – maen nhw'n gwirio pa mor dda mae'r heddlu'n ymdrin â'r cyhoedd.

- **Llysgennad Ifanc** – maen nhw rhwng 11 a 18 oed. Maen nhw'n medru helpu i wneud y dewisiadau gorau o ran sut i helpu pobl ifainc.

- **Rhan o'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr** – mae hyn yn fy helpu i sicrhau bod lleisiau dioddefwyr yn cael eu clywed.

Er mwyn bod yn wirfoddolwr, rhaid eich bod chi'n byw ym Mhowys, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, neu Sir Benfro.

Mae gwirfoddolwyr yn derbyn rhywfaint o arian i dalu am bethau fel costau teithio. Maen nhw hefyd yn cael 'credydau' yn wobr i wario ar bethau eraill.

Gwybodaeth arall am Heddlu Dyfed-Powys

Ffeithiau:

Mae 2217 o bobl yn gweithio i'r heddlu

Mae 47 % yn fenywod

Mae 52 % yn medru siarad Cymraeg

Mae 1% o gefndir nad yw'n wyn

Ynglŷn â'r cynllun hwn

Er mwyn ysgrifennu'r cynllun hwn, rwyf wedi ystyried:

- Cyfreithiau, cynlluniau a dogfennau ffurfiol gan y Llywodraeth.
- Anghenion cynghorau a gwasanaethau cyhoeddus.
- Adborth gan y gwasanaeth heddlu.
- Adborth gan y cyhoedd.